# Cynigion a Gwelliannau i’w Trafod ar 12 Ebrill 2005

# Cynigion a gyflwynwyd ar 5 Ebrill 2005

### Dadl Plaid Leiafrifol

### NDM2375 David Melding (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn credu bod gan bobl Cymru’r hawl i ddisgwyl gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithiol ac effeithlon ac mae’n gresynu at fethiant polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau canlyniad o’r fath er gwaethaf ymdrechion gorau nyrsys, meddygon, athrawon a staff eraill.

### NDM2376 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol "Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru 2003-04".

*Gellir gweld copïau o "Adroddiad Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru 2003-2004" drwy ddilyn y dolenni hyn:*
*Saesneg: http://www.wales.gov.uk/subisocialpolicysocialservices/content/reports/annual-report-200304-e.pdf*
*Cymraeg: http://www.cymru.gov.uk/subisocialpolicysocialservices/content/reports/annual-report-200304-w.pdf*

### NDM2377 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mawrth 2005 ynghylch y Rheoliadau drafft Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2005
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2005
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2005

2.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mawrth 2005 ynghylch y Rheoliadau drafft Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2005
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2005
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Ebrill 2005

3.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mawrth 2005 ynghylch y Rheoliadau drafft Rheoliadau Marchnata Deunydd Planhigion Ffrwythau (Diwygio) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Marchnata Deunydd Planhigion Ffrwythau (Diwygio) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2005
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 5 Ebrill 2005

4.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mawrth 2005 ynghylch y Rheoliadau drafft Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2005
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 5 Ebrill 2005

5.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mawrth 2005 ynghylch y Gorchymyn drafft Gorchymyn Deddf Gofalwyr (Cyfleoedd Cyfartal) 2004 (Cychwyn) (Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Gofalwyr (Cyfleoedd Cyfartal) 2004 (Cychwyn) (Cymru) 2005 yn cael ei wneud yn unol ag y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2005

6.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mawrth 2005 ynghylch y Rheoliadau drafft Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio)

(Cymru) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru)2005 yn cael ei wneud yn unol ag:

i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2005
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 5 Ebrill 2005
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno, ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 5 Ebrill 2005.

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 7 Ebrill 2005

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau isod i gynigion:

**NDM2375**

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Cred y dylai targedau i wella gofal iechyd fod yn realistig ac na ddylent ystumio blaenoriaethau clinigol.

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Yn llinell 1 rhoi "yn gryf" ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol"

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ar ôl "polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru" rhoi:

'er 1999, a Llywodraethau olynol y DU,'

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Noda ddadrithiad cyffredinol gweithwyr y sector cyhoeddus fel sy'n amlwg yn y bleidlais ysgubol ddiweddar o blaid gweithredu diwydiannol gan aelodau undeb llafur y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol.

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Cred y bydd gwasanaethau cyhoeddus Cymru’n darparu gwasanaeth o’r safonau uchaf os cânt eu seilio ar egwyddorion sosialaidd.

**NDM2376**

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Noda gan resynu at ganlyniad siomedig rownd gyntaf y cydadolygiadau, gan na chafodd yr un awdurdod ei osod yn y ddau gategori gwasanaethu uchaf, sef gwasanaethu pobl yn dda yn gyffredinol neu wasanaethu'r rhan fwyaf o bobl yn dda a geilw ar y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu mwy o arweiniad a chyfeiriad.